CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 23ain GORFFENNAF 2019.

1 PRESENNOL:

Cynghorwyr Ms Linda Jones (Cadeirydd), Mrs Barbara McKeaveney, Mrs Carol McGregor, Mr Raymond Evans, Mr Derek Hughes, Mr Einion Parry Williams a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

Cynghorydd Sirol Mr Dafydd Roberts.

2 YMDDIHEURIAD:

Cynghorydd Mrs Ffion Mon Bullock, Ms Rhian Roberts, Mr Ian Owen, Mr Cynrig Jones a MrJohn Pritchard. Hefyd Cynghorydd Sirol Mr Eric Jones.

3 CROESO & DATGAN DIDDORDEB RHAGFARNOL.

3.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd gan y Cadeirydd.

3.2. Nid oedd unrhyw aelod wedi datgan diddordeb mewn unrhyw eitem a oedd ar y rhaglen.

4 CYWIRO, DERBYN & ARWYDDO COFNODION CYFARFOD (4ydd Mehefin 2019).

4.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod yn gywir. (BM/DH).

5 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

5.1 Cynnal & Cadw Gwyneb Safle Maes Cae Chwarae Mawr – roedd y Clerc wedi derbyn ail-ddyfnbris am y gwaith can cwmni HAGS (£25,440.75) I fynd gyda amcancyfrif wedi ei dderbyn eisoes gan Cwmni G L Jones (£19,885.00). Roedd rhan o'r arian sydd angen wrth gefn ar gyfer y cynllun ond awgrymodd y Clerc y dylai wneud cais trwy Elusen Ymddiriedolaeth y Cyngor Sir pan dderbynnir cadarnhad o'r dyddiad agored er mwyn sicrhau fod yr holl waith wedi ei cwblhau. Cytunwyd yr aelodau i'r argymelliad yma.

5.2 Disgwylir y bydd archwiliad y caeau chwarae wedi ei wneud erbyn y cyfarfod nesaf.

Arwyddo.....

5.3 Trafodaeth Cwynion Chwarel Bwlch Gwyn – cytuno rhestru fel eitem yn y cyfarfod nesaf.

5.4 Adroddiad yr Heddlu – roedd y Clerc wedi ceisio cysylltu gyda'r Heddlu er mwyn dwyn sylw cwynion graffiti yn y cysgodfan a'r Cae Chwarae Mawr.

6 MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

6.1 Cysoni Taliadau, Derbyniadau & Cyfrif y Cyngor hyd at 30/06/2019 - cafwyd esboniad llawn o holl wariant y Cyngor hyd at ddiwedd Mis Mehefin 2019 gan cynnwys cysoniad a datganiad y banc ac fe dderbyniwyd ac arwyddwyd y fantolen yn unfrydol.

7 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

7.1 Cais Llawn codi 5 Annedd Farchnad agored a 1 Annedd Fforddiadwy ynghyd a creu mynedfa newydd ar gyfer cerbydau a gwaith cysylltiedig ar dir Hen Safle Little Chef, Gaerwen. Rhif Cais FPL/2019/124 (Cais Diwygiedig).

Penderfyniad – cyfeirio at ymateb blaenorol – croesawu unrhyw welliant I ddatblygu'r safle ond fod rhaid ystyried amodau parcio pridodol i'r aneddau yn unol a'r cynlluniau.

7.2 Cais Cynllunio Hybrid ar gyfer Dymchwel yr Adeiladau Cyffredol ac Ail-Ddatblygu'r safle ar gyfer Adeiladu Stad Ddiwydiannol yn cynnwys arwynebedd llawr odditeu 27,041 metr sgwar (Dosbarth B1/B2/B8) ac yn ymgorffori caniatad cynllunio llawn ar gyfer dymchwel yr holl adeiladau/strwythurau cyffredol ar safle'r cais; adeiladu Unedau Diwydiannol Rhifau 1 & 2; gwaith priffyrdd, tirlunio a gwaith ategol (sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu Uned Rhifau 1 & 2) (cyfanswm arwynebedd llawr yn 3,983.28 metr sgwar); a chaniatad cynllunio amlinellol (yr holl faterion wedi eu cadw'n ol) ar gyfer datblygu gweddill Hen Safle Llathdy Welsh Country Foods, Lon Groes, Gaerwen. Rhif Cais : FPL/2019/128 (Cais Diwygiedig)

Penderfyniad – DIM SYLWADAU.

8 MATERION PRIFFYRDD.

8.1 Nodwyd Gorchymyn Gwahardd Traffig Dros Dro (Croesfan Rheilffordd Gaerwen) 2019 ar gyfer gwaith cynnal a chadw rhwng 13/14 Gorffennaf a 20/21 Gorffennaf 2019.

8.2 Nodwyd Gorchymyn Gwahardd Traffig Dros Dro (Lon Chwarel, Llangaffo) 2019 ar gyfer gwaith atgyweirio adeiladwaith handfodol brys I Bont Marcwis rhwng 24/28 Mehefin 2019.

Arwyddo.....

9. ADRODDIADAU, YMGYNGHORIADAU & GOHEBIAETH.

9.1 Cynghorwyr Sirol – adroddiad oddiwrth Cynghorydd Sirol Dafydd Roberts ynglyn a;

9.1.1 Adroddiad & Sefyllfa Ariannol/Cyllideb diweddaraf CSYM – roedd oedi oherwydd sefyllfa Brexit ond disgwylir mwy o cwrtogi.

9.1.2 Darparu mwy o Adeiladau Cartrefi Cymdeithasol clyd er mwyn arbed costau.

9.1.3 Adroddiad Gwasanaeth Plant wedi gwella.

9.1.4 Cynllun Safle Maes Parcio Cyffordd 7 & Dyfodol Wylfa Newydd – cafwyd trafodaeth fer ymhlith yr aelodau.

9.2 Fforwm Cynghorau Tref & Cymunedau – derbyniwyd adroddiad ar lafar gan y Cynghorydd Einion P Williams ynglyn a;

9.2.1 Ymgynghoriad Polisi Gosod Tai Cyffredin.

9.2.2 Arolwg Trefniadau Etholiadol ar gyfer Ynys Mon.

9.3 Un Llais Cymru – derbyniwyd adroddiad fer ar lafar gan y Cynghorydd Einion Williams gyda diolch.

9.4 Pwyllgor Y Ganolfan – dim adroddiad ar hyn o bryd.

9.5 Pwyllgor Llywodraethwyr Ysgol Esceifiog – dim adroddiad.

9.6 Caru Gaerwen – nodwyd fod tudalen yn bodoli trwy cyfryngau cymdeithasol a oedd yn trafod materion yn effeithio'r pentref.

9.7 Adroddiad Blynyddol Menter Mon – er gwybodaeth yn unig.

10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 24ain MEDI 2019.

10.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am ddod ac fe clowyd y cyfarfod am 8:20yh.

Arwyddo……Cadeirydd……Dyddiad.